Stonewall

# AMDANO'R ADNODD YMA

**Mae'r adnodd yma wedi ei gynhyrchu gan Stonewall, elusen sydd wedi ei leoli yn y DU ac sy'n sefyll dros rhyddid, ecwiti, a potensial pob person lesbiaidd, hoyw, deurhywiol, traws, cwîar, cwestiynu ac ace (LHDT+).**

Mae'r adnodd yma wedi ei gynhyrchu gan Stonewall, elusen sydd wedi ei leoli yn y DU ac sy'n sefyll dros rhyddid, ecwiti, a potensial pob person lesbiaidd, hoyw, deurhywiol, traws, cwîar, cwestiynu ac ace (LHDT+).

Yn Stonewall, dychmygwn byd ble all pobl LHDTC+ ym mhobman byw bywydau llawn. Cawsom ein sefydlu yn Llundain yn 1989, ac yn awr rydym yn gweithio ym mhob wlad y DU a rydym wedi sefydlu partneriaethau ar draws y byd. Dros y tair degawd diwethaf, rydym wedi creu newidiadau trawsffurfiedig ym mywydau pobl LHDTC+ yn y DU, gan helpu ennill hawliau hafal o ran priodas, cael plant, ac addysg cynwysiedig.

Mae ein ymgyrchoedd yn creu newidiadau positif i'n cymunedau, ac mae ein rhaglenni newid cynaliadwy a grymusrwydd yn sicrhau bod pobl LHDTC+ yn gallu ffynnu trwy gydol ein bywydau. Rydym ni'n sicrhau bod y byd yn clywed ac yn dysgu o'n cymunedau, ac bod ein gwaith ni wedi ei seilio yn tystiolaeth ac arbenigedd.

I ddarganfod mwy amdano ein gwaith ni, ewch i www.stonewallcymru.org.uk.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

Mae Stonewall yn falch i ddarparu wybodaeth, cefnogaeth a cyngor ar cynwysedd LHDTC+; gweithio tuag at byd ble yr ydym i gyd yn rhydd i fyw. Nid yw hyn yn gyfystirio cyngor gyfreithiol, ac nid ydy'n bwriadu cymryd lle cyngor gyfreithiol ar unrhyw pwnc.




# ADRODDIAD YSGOL CYMRU

Profiadau pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn ysgolion Cymru yn 2017

Stonewall Cymru

# ADRODDIAD YSGOL CYMRU

Profiadau pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn ysgolion Cymru yn 2017

www.stonewallcymru.org.uk/cy/chwaraewch-ran/addysg

# ADRODDIAD YSGOL CYMRU

## Profiadau pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn ysgolion Cymru yn 2017

**Josh Bradlow a Crash Wigley** Stonewall

**Dr Vasanti Jadva** Y Ganolfan Ymchwil Teulu, Prifysgol Caergrawnt

UNIVERSITY OF CAMBRIDGE
Centre for Family Research

Stonewall
Cymru



# RHAGAIR

Pan ryddhawyd *Adroddiad Ysgol* cyntaf Stonewall yn 2007, fe ddatgelwyd darlun brawychus: roedd dau ymhob tri o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi cael eu bwlio yn yr ysgol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, a dim ond un ysgol ymhob pedair oedd yn dweud bod y bwlio yma'n annerbyniol.

Yn ystod y degawd diwethaf, rydyn ni wedi gweithio gyda llywodraethau, ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Prydain i'w helpu i frwydro yn erbyn y bwlio yma a chreu amgylchedd dysgu mwy cynhwysol. Yn 2015, ymestynnodd Stonewall ein cylch gwaith er mwyn dechrau ymgyrchu dros gydraddoldeb traws, a dyma'r *Adroddiad Ysgol* cyntaf gan Stonewall sy'n cynnwys profiadau penodol pobl ifanc draws.

Mae *Adroddiad Ysgol 2017* Stonewall yn astudiaeth o fwy na 3,700 o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws (LHDT) o bob rhan o wledydd Prydain. Mae'n dangos effaith barhaus y gwaith yma. Ers 2007, mae gostyngiad o bron i draean wedi bod yn nifer y disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n cael eu bwlio oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Mae nifer yr ysgolion sy'n dweud bod bwlio yn annerbyniol bron â bod dair gwaith cymaint, ac mae sylwadau homoffobaidd yn llawer llai tebygol o gael eu clywed. Diolch i waith caled ac ymroddiad athrawon, staff ysgol, ysgolion a llywodraethau ledled Prydain, mae mwy nag erioed o bobl LHDT yn gallu bod yn nhw eu hunain yn yr ysgol.

Mae *Adroddiad Ysgol Cymru 2017* yn dangos y canlyniadau gan bobl ifanc LHDT ar draws Cymru sydd rhwng 11 ac 19 oed. Mae dros hanner pobl ifanc LHDT Cymru yn dal i gael eu bwlio am fod yn LHDT yn yr ysgol, a dim ond un ymhob chwech sydd wedi cael dysgu yn yr ysgol am ryw diogel yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw.  Mae pobl ifanc LHDT Cymru yn dal i brofi lefelau annerbyniol o uchel o iechyd meddwl gwael. Dywedodd tri ymhob pump o ddisgyblion LHDT Cymru nad oedd materion LHDT wedi eu trafod erioed yn yr ysgol, gan olygu eu bod yn teimlo wedi'u hynysu a heb gefnogaeth. Yn destun pryder pellach, mae tri ymhob pump o ddisgyblion LHDT Cymru yn dweud nad oes oedolyn yn yr ysgol y gallan nhw siarad gyda nhw ynghylch bod yn LHDT.

Mae bron â bod yr holl bobl ifanc LHDT yn dweud bod y rhyngrwyd wedi eu helpu nhw i ddeall rhagor am eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu eu hunaniaeth rhywedd. Testun pryder yw'r ffaith nad yw'r profiad ar-lein yn gwbl bositif i bobl ifanc LHDT, gan fod bron y cyfan ohonyn nhw'n gweld cynnwys sarhaus gwrth-LHDT ar-lein, bod yn agos at eu hanner wedi wynebu camdriniaeth ar-lein ac mai dim ond tri ymhob pump ohonyn nhw sy'n credu y bydd y platfform arlein yn gwneud rhywbeth petai pobl yn adrodd am y peth wrthyn nhw.

Mae'r risg i ddisgyblion traws yn arbennig o uchel: mae llawer yn profi aflonyddu, bwlio a thrais, gyda 73 y cant yn profi bwlio yn yr ysgol. Mae dros hanner y bobl ifanc draws yn dweud nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r tai bach maen nhw'n teimlo'n gyfforddus ynddyn nhw yn yr ysgol, ac mae dau ymhob pump yn dweud nad ydyn nhw'n gallu cael eu nabod gyda'u dewis enw yn yr ysgol. Mae tri ymhob pedwar o bobl ifanc draws wedi niweidio'u hunain ar ryw adeg.

Rydyn ni'n clywed yn aml pa mor bell mae Cymru wedi dod o ran hawliau LHDT, a chymaint mae bywyd wedi gwella i'n pobl ifanc LHDT. Mae'r astudiaeth yma'n dangos, er bod rhai pobl ifanc LHDT yn cael eu derbyn, bod bwlio, gwahaniaethu ac eithrio yn rhan o fywydau bob dydd llawer ohonynt.

Mae dyfyniadau gan lawer o bobl ifanc LHDT Cymru yn yr adroddiad yma. Mae darllen eu hanesion nhw yn eu geiriau eu hunain yn dorcalonnus. Fe ddylai'r ystadegyn bod chwarter y disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol a dau ymhob pump o bobl ifanc draws wedi ceisio lladd eu hunain ein hysgwyd ni i gyd. Does dim amheuaeth bod rhaid gweithredu ar frys. Wrth gyhoeddi'r canfyddiadau a'r argymhellion yma, ein gobaith yw y byddan nhw'n alwad i weithredu i bawb sy'n rhan o'r gwaith o siapio, darparu a goruchwylio profiad dysgu cenedlaethau'r dyfodol. Does dim lle i laesu dwylo: bydd ein gwaith yn parhau tan y bydd pob person ifanc yn cael eu derbyn yn ddieithriad.

Andrew White
**Cyfarwyddwr, Stonewall Cymru**

# YR ASTUDIAETH

Yn 2016, comisiynodd Stonewall y Ganolfan Ymchwil Teulu ym Mhrifysgol Caergrawnt i gynnal arolwg gyda phobl ifanc sy'n lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws (neu'n meddwl efallai eu bod nhw) gan eu holi am eu profiadau mewn ysgolion uwchradd a cholegau ledled Prydain. Rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Chwefror 2017, cwblhawyd holiadur ar-lein gan 3,713 o bobl ifanc LHDT rhwng 11 ac 19 oed, gan gynnwys 267 oedd yn byw yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli ymatebion y cyfranogwyr oedd yn byw yng Nghymru.

Yr astudiaeth yma yw'r ail adroddiad a gyhoeddwyd gan Stonewall Cymru, bum mlynedd ers Adroddiad Ysgol 2012. Dyma'r adroddiad cyntaf i gynnwys profiadau penodol pobl ifanc draws, ffaith sy'n adlewyrchu penderfyniad Stonewall i ymestyn ei chylch gwaith er mwyn ymgyrchu dros gydraddoldeb i bobl draws yn 2015.

# MYNEGAI


1 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL 6

2 LEFELAU O FWLIO HOMOFFOBAIDD, DEUFFOBAIDD A THRAWSFFOBAIDD 8

3 SUT MAE BWLIO'N EDRYCH? 10

4 YMATEB I IAITH A BWLIO 13

5 DYSGU AM FATERION LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS 15

6 CEFNOGAETH I DDISGYBLION LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS 17

7 LLES A IECHYD MEDDWL 20

8 BYWYD Y TU ALLAN I'R YSGOL 22

ARGYMHELLION: YSGOLION, COLEGAU AC ATHRAWON 25

METHODOLEG 30

CYMORTH AC ADNODDAU 31



PENNOD 1

# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

## IAITH A BWLIO

- Mae **dros hanner** disgyblion LHDT Cymru (54 y cant) – gan gynnwys **73 y cant** o ddisgyblion traws – yn cael eu bwlio am fod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws yn yr ysgol.
- Mae **tri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (60 y cant) yn clywed iaith homoffobaidd yn yr ysgol 'yn gyson' neu 'yn aml', mae **hanner** (49 y cant) yn clywed iaith ddeuffobaidd 'yn gyson' neu 'yn aml', a **hanner** (51 y cant) yn clywed iaith drawsffobaidd 'yn gyson' neu 'yn aml'.
- Mae **naw ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (90 y cant) yn clywed ymadroddion fel 'mae hynna mor gay' neu 'rwyt ti mor gay' yn rheolaidd.
- Mae **bron i hanner** y disgyblion LHDT (47 y cant) sy'n profi bwlio homoffobaidd, deuffobaidd neu drawsffobaidd yn dweud nad ydyn nhw byth yn sôn wrth neb am y peth.

## SUT MAE YSGOLION YN YMATEB

- Dim ond **chwarter** y disgyblion LHDT yn ysgolion Cymru (25 y cant) sy'n dweud bod athrawon yn ymyrryd pan fo bwlio'n digwydd yn eu presenoldeb.
- Dim ond **tri ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (29 y cant) sy'n dweud bod athrawon a staff yr ysgol yn herio iaith homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd yn gyson pan fyddan nhw'n ei chlywed.
- Mae **bron i dri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT yn ysgolion Cymru (56 y cant) yn dweud bod eu hysgolion yn datgan bod bwlio homoffobaidd a deuffobaidd yn annerbyniol, ond dim ond **un ymhob tri** (33 y cant) sy'n dweud bod eu hysgolion yn datgan bod bwlio trawsffobaidd yn annerbyniol.

## DYSGU

- Mae **tri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT yn ysgolion Cymru (58 y cant) yn dweud nad ydyn nhw byth yn cael dysgu dim am faterion LHDT.
- Dim ond **un ymhob chwech** o ddisgyblion LHDT (16 y cant) sydd wedi cael dysgu am ryw diogel yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw.
- Mae **mwy na phedwar ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (84 y cant) yn dweud nad ydyn nhw erioed wedi trafod na dysgu am ddeurywioldeb yn yr ysgol.
- Mae **mwy na phedwar ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (87 y cant) yn dweud nad ydyn nhw erioed wedi trafod na dysgu beth yw ystyr 'traws' na hunaniaeth rhywedd.

## CEFNOGAETH

- Mae **tri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (62 y cant) yn dweud nad oes oedolyn yn yr ysgol y gallan nhw siarad â nhw ynghylch bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws.
- Dim ond **tri y cant** o ddisgyblion LHDT sy'n gwybod am aelod staff sy'n agored ddeurywiol, a dim ond **tri y cant** sy'n gwybod am aelod staff agored draws. Mae **un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (19 y cant) yn gwybod am aelod staff agored hoyw, a **15 y cant** yn gwybod am aelod staff agored lesbiaidd.
- Mae **tri ymhob pump** o ddisgyblion traws (62 y cant) yn dweud nad yw staff yn eu hysgol yn gyfarwydd â'r term 'traws' nac ystyr hynny.
- Mae **mwy na hanner** y disgyblion traws (53 y cant) yn dweud nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r tai bach maen nhw'n gyfforddus ynddyn nhw yn yr ysgol, a **dau ymhob pump** (42 y cant) ddim yn gallu cael eu hadnabod gyda'r enw maen nhw'n ei ddymuno yn yr ysgol.



## LLES A IECHYD MEDDWL

- Mae hanner disgyblion LHDT Cymru sy'n cael eu bwlio (51 y cant) wedi osgoi mynd i'r ysgol oherwydd bwlio sy'n gysylltiedig â bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws.
- Mae tri ymhob pump o ddisgyblion LHDT sy'n cael eu bwlio (62 y cant) yn teimlo bod bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd wedi cael effaith negyddol ar eu cynlluniau ar gyfer addysg yn y dyfodol.
- Mae tri ymhob pedwar o bobl ifanc draws (77 y cant) wedi niweidio'u hunain yn fwriadol ar ryw adeg. O blith disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol nad ydyn nhw'n draws, mae tri ymhob pump (61 y cant) wedi hunan-niweidio.
- Mae dau ymhob pump o bobl ifanc draws (41 y cant) wedi ceisio lladd eu hunain ar ryw adeg. O blith disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol nad ydyn nhw'n draws, mae un ymhob pedwar (25 y cant) wedi ceisio lladd eu hunain.

## GARTREF AC AR-LEIN

- Dim ond dau ymhob pump o bobl ifanc LHDT Cymru (42 y cant) sydd ag oedolyn gartref y gallan nhw siarad â nhw ynghylch bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws.
- Mae bron â bod yr holl bobl ifanc LHDT (95 y cant) yn dweud bod y rhyngrwyd wedi eu helpu i ddeall rhagor am eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu eu hunaniaeth rhywedd.
- Mae bron i hanner y bobl ifanc LHDT (46 y cant) wedi wynebu camdriniaeth homoffobaidd, ddeuffobaidd neu drawsffobaidd ar-lein.
- Mae bron â bod yr holl bobl ifanc LHDT (97 y cant) yn gweld cynnwys homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd ar-lein.
- Mae tri ymhob pump o bobl ifanc LHDT (60 y cant) yn credu bod platfformau arlein yn annhebygol o wneud dim ynghylch digwyddiadau neu gynnwys homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd y mae pobl yn eu hadrodd wrthynt.

> Roedd pobl yn arfer gwneud sbort ar fy mhen oherwydd sut dw i'n edrych. Roedd pobl yn aml yn gofyn ai bachgen neu ferch o'n i, ac yn galw enwau fel 'shim' a 'hermaphrodite' arna i. Roedd pobl yn fy ngwthio i yn y coridor, yn fy nghicio i, a phan fyddwn i'n crio fe fydden nhw'n dweud fy mod i'n 'nervous wreck'. Fe ddechreuodd ym Mlwyddyn 7, ac fe aeth e 'mlaen tan ddiwedd Blwyddyn 11.
> Dw i ddim wir wedi dod dros y peth ers hynny.
>
> Jamie, 17, coleg chweched dosbarth



PENNOD 2

# LEFELAU O FWLIO HOMOFFOBAIDD, DEUFFOBAIDD A THRAWSFFOBAIDD

Mae iaith a bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn gyffredin yn ysgolion uwchradd a cholegau Cymru.

## BWLIO

Mae **dros hanner** y disgyblion LHDT (54 y cant) yn cael eu bwlio am fod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws yn yr ysgol.

**Nath y bwlio stopio wedyn am dipyn, ond wedyn nath rhywun arall ddechrau fy mwlio i ar y bws, yn fy ngalw i'n "only gay in the village" gan fy mod i'n siarad Cymraeg a bod acen gref gyda fi. Fe ddywedwyd "go and die in a hole" wrtha i lawer gwaith.**
Osian, 16 ysgol uwchradd

**Mae pobl wedi gweiddi arna i a siarad amdana i ar sawl achlysur oherwydd fy rhywioldeb, a dw i wedi clywed sylwadau fel 'mae pobl ddeurywiol yn fwy tebygol o fod yn anffyddlon, fysen i byth yn mynd allan gyda rhywun deurywiol'. Mae rhai pobl sy'n agored hoyw wedi dweud pethau fel 'fysen i, fel lesbiad, byth eisiau gwneud dim byd gyda merch ddeurywiol.'**
Sian, 13, ysgol uwchradd

Mae disgyblion traws yn arbennig o debygol o brofi bwlio: mae **dau ymhob tri** o ddisgyblion traws (65 y cant) yn cael eu bwlio yn yr ysgol am fod yn draws.

**Roedd pobl yn arfer gwneud sbort ar fy mhen oherwydd sut dw i'n edrych. Roedd pobl yn aml yn gofyn ai bachgen neu ferch o'n i, ac yn galw enwau fel 'shim' a 'hermaphrodite' arna i. Roedd pobl yn fy ngwthio i yn y coridor, yn fy nghicio i, a phan fyddwn i'n crio fe fydden nhw'n dweud fy mod i'n 'nervous wreck'. Fe ddechreuodd ym Mlwyddyn 7, ac fe aeth e 'mlaen tan ddiwedd Blwyddyn 11. Dw i ddim wir wedi dod dros y peth ers hynny.**
Jamie, 17, coleg chweched dosbarth

Mae disgyblion traws hefyd yn cael eu bwlio ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol gwirioneddol neu dybiedig: wrth ystyried y rhai sy'n profi bwlio oherwydd eu hunaniaeth rhywedd a/neu eu cyfeiriadedd rhywiol, mae **tri ymhob pedwar** (73 y cant) o ddisgyblion traws yn cael eu bwlio am fod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws yn yr ysgol.

**O'n i'n cael fy mwlio o tua wyth oed ymlaen am nad o'n i'n ddigon 'girly'. O'n i'n ei chael hi'n anodd esbonio'r problemau o'n i'n eu hwynebu wrth y staff, ond unwaith i fi wneud hynny roedden nhw'n gefnogol iawn. Fe wnaethon nhw siarad gyda'r bobl a gweithio'n agos gyda fi er mwyn gwneud yn siŵr fy mod i'n iawn.**
Olly, 18 ysgol uwchradd

**Doedd neb eisiau siarad efo fi nac eistedd efo fi yn y dosbarth. Weithiau mi fyddai pobl yn dweud "dyke" neu "tranny" o dan eu gwynt wrth i fi gerdded fewn i'r dosbarth. Tasai athro yn gofyn cwestiwn i fi mi fysan nhw'n chwerthin ar ben fy llais i. Mi oedden nhw'n edrych yn rhyfedd arna i taswn i'n trio ymuno yn y sgwrs, gan ei gwneud hi'n amlwg bod yna ddim croeso i fi yn eu grŵp nhw o ffrindiau. Mi wnaeth grŵp o ferched o'n i'n nabod ers blynyddoedd ddechrau fy nilyn i o gwmpas a chwerthin ar ben fy ngwallt i. Roedden nhw'n mynnu gofyn cwestiynau annifyr gan wybod eu bod nhw'n fy ngwneud i'n anghyfforddus, fel "pam wyt ti'n defnyddio'r tai bach anabl?". Roedd merch arall yn mynnu fy ngalw i'n "it" y tu ôl i fy nghefn.**
Rhys, 19, yn y brifysgol erbyn hyn

Mae **mwy na dau ymhob pump** o ferched LHDT (44 y cant) a **dau ymhob tri** o fechgyn LHDT (66 y cant) yn cael eu bwlio yn yr ysgol am fod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws.

**Aeth y peth ymlaen yr holl amser tan i fi adael i fynd i'r coleg. Roedden nhw'n gwneud hwyl ar fy mhen i am wisgo teits a cholur. Fe fyddai athrawon yn rhoi stŵr i fi hefyd am yr un peth ac yn fy sarhau i. Mae pobl wedi dweud wrtha i y dylwn i ladd fy hunan ac mae pobl wedi bygwth fy lladd i, wedi fy ngham-drin i'n gorfforol ac wedi fy mwlio I ar-lein.**
Jordan, 18

## LAITH

Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cael eu bwlio eu hunain, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion LHDT yn clywed iaith homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd yn ysgolion Cymru.

Mae naw ymhob deg o ddisgyblion LHDT – **90 y cant** – yn clywed ymadroddion fel 'mae hynna mor gay' neu 'rwyt ti mor gay' yn rheolaidd yn yr ysgol, gyda **saith ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (72 y cant) yn clywed sylwadau o'r fath 'yn gyson' neu 'yn aml'.

Mae **tri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (60 y cant) yn clywed iaith homoffobaidd fel 'ffagot' neu 'lezza' yn aml neu'n gyson yn yr ysgol. Mae eu **hanner** (49 y cant) yn clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol yn aml neu'n gyson (iaith ddeuffobaidd), er enghraifft bod pobl ddeurywiol yn 'farus' neu mai 'mynd drwy chwiw dros dro' maen nhw. Mae eu **hanner** (51 y cant) yn clywed sylwadau negyddol am bobl draws yn aml neu'n gyson (iaith drawsffobaidd), er enghraifft geiriau fel 'tranny' neu 'he-she'.

**Dw i'n clywed iaith homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd yn ogystal â jôcs cas bob dydd. Does neb yn eu herio a dydy'r staff sy'n eu clywed ddim yn gwneud dim byd hyd y gwn i. Dw i'n credu y dylai'r ysgol ddysgu pobl a siarad yn agored am faterion LHDT. Petaen nhw'n siarad cymaint am faterion LHDT ag y maen nhw am gyffuriau ac alcohol, ac yn cosbi homoffobia, trawsffobia a deuffobia, dw i'n credu y byddai amgylchedd gwell a mwy diogel yn yr ysgol.**
Rhiannon, 14, ysgol uwchradd

> Ges i fy mwlio yn y coleg am fod yn draws, a wnaethon nhw ddim byd. Ges i fy mwlio achos fy nillad, a wnaethon nhw chwerthin efo nhw.
>
> Morgan, 17, coleg addysg bellach



PENNOD 3

# SUT MAE BWLIO'N EDRYCH?

Mae bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn ysgolion Cymru yn amrywio o gam-drin geiriol i fygwth lladd pobl, ac mae'n digwydd ymhob rhan o'r ysgol, gan gynnwys tra bod disgyblion yn eu gwersi.

## LEFEL O WAHANOL FATHAU O FWLIO YN YR YSGOL

Mae **hanner** y disgyblion LHDT yng Nghymru (52 y cant) yn wynebu cam-drin geiriol yn yr ysgol.

**Fe fuodd pobl yn fy ngalw i'n ffagot, yn dweud nad yw hi'n iawn bod yn hoyw, bod fy mherthynas ar y pryd yn gwneud pobl yn anghyfforddus a'i fod yn beth annaturiol.**

Elin, 19, coleg addysg bellach

Mae **dau ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (42 y cant) yn dweud bod pobl yn hel clecs amdanynt. Mae **traean** y disgyblion LHDT (32 y cant) yn cael eu hanwybyddu neu eu hynysu, a'r un ganran yn profi disgyblion yn syllu'n fygythiol arnynt.

**Mi wnaeth o bara tua chwe mis, ac yn ystod y cyfnod yna mi o'n i'n cael fy anwybyddu gan bawb. Hyd heddiw dw i prin yn siarad efo neb, a dw i'n clywed pobl yn hel straeon amdana i. Mi nes i siarad efo nyrs yr ysgol ond wnaeth neb wneud dim byd.**

Alys, 17 ysgol uwchradd

**Oedd o'n ofnadwy. Mi nes i ymddiried mewn dau ffrind agos. Mi ddywedodd un ohonyn nhw wrth ferch oedd yn fy nghasáu i, ac mi wnaeth hi ddechrau lledu'r peth o gwmpas. Mi wnaeth o fy ngwneud i'n anghyfforddus iawn, i'r pwynt lle o'n i'n mynd yn rhy bryderus i fynd i'r dosbarth, ac mi fyswn i'n crio yn y tai bach. Y peth gwaethaf oedd pan ddechreuodd pobl edrych yn gam arna i. Mi fysen nhw'n trafod y peth yn eu grwpiau o ffrindiau fel tase fo'n beth mawr. Mi aeth hi'n lot gwaeth hefyd. Mi fyswn i'n cael fy mhwnio ac ati, ond dw i ddim wir eisiau mynd i fanylion am hynny.'**

Abbie, 15, ysgol uwchradd

Mae **wyth y cant** o ddisgyblion LHDT yn profi bwlio corfforol, sy'n cynnwys pobl yn eu bwrw, eu pwnio, eu cicio neu'n taflu pethau atynt. Mae **naw y cant** o ddisgyblion LHDT wedi profi rhywun yn dwyn neu'n difrodi eu heiddo.

Mae **wyth y cant** o ddisgyblion LHDT yn cael bygythiadau i'w lladd yn yr ysgol.

**Mae llawer o glecs wedi bod am fy rhywioldeb i, gyda llawer yn dweud fy mod i fel hyn a fel arall, heb siarad gyda fi o gwbl. Mae faint o iaith homoffobaidd sy'n cael ei defnyddio yn afiach. Mae pobl wedi taflu pethau ata i, ac mae pobl wedi bygwth lladd fy mhartner i, dim ond am fod yn hoyw.**


Jessica, 17, ysgol uwchradd

**Bwlio cyffredinol oedd y rhan fwyaf. Ond roedd llawer ohono'n ymwneud â'r ffaith bod rhai pobl yn cymryd yn ganiataol fy mod i'n lesbiad. Ar y pryd o'n i'n archwilio fy rhywioldeb, felly fe wnaeth hynny hi'n anodd i fi dderbyn fy hunan. Fe wnaeth pobl fygwth fy lladd i hefyd, ac fe effeithiodd hynny'n wael arna i. Fe wnaeth yr athrawon helpu i raddau. Ond wnaethon nhw ddim mynd i'r afael â'r homoffobia amlwg o'n i'n ei brofi.**

Lois, 17, coleg chweched dosbarth

Mae **dau y cant** o ddisgyblion LHDT wedi profi bygythiadau gydag arfau yn yr ysgol, ac mae **dau y cant** o ddisgyblion LHDT yn profi ymosodiad rhywiol.

## Y MATH O FWLIO MAE DISGYBLION LHDT YN EI WYNEBU




## BLE MAE BWLIO HOMOFFOBAIDD, DEUFFOBAIDD A THRAWSFFOBAIDD YN DIGWYDD YN YR YSGOL

Y lle mwyaf cyffredin I ddisgyblion LHDT gael eu bwlio yn ysgolion Cymru yw yn y coridorau neu o gwmpas tiroedd yr ysgol. Mae bron i **ddau ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (37 y cant) yn cael eu bwlio yn y coridorau, ac mae **yr un ganran** yn cael eu bwlio o gwmpas tiroedd yr ysgol.

Mae **tri ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (31 y cant) yn profi bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn ystod gwersi. Doedd neb eisiau siarad efo fi nac eistedd efo fi yn y dosbarth.

**Weithiau mi fyddai pobl yn dweud "dyke" neu "tranny" o dan eu gwynt wrth i fi gerdded fewn i'r dosbarth.**
Rhys, 19, yn y brifysgol erbyn hyn

Mae **un ymhob pedwar** o ddisgyblion LHDT (26 y cant) yn cael eu bwlio am fod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws yn yr ysgol drwy ffôn symudol neu ar-lein.

**Roedd e'n digwydd drwy negeseuon testun – fe wnaeth 'ffrindiau' i fi roi fy rhif allan. Roedd e'n fy ypsetio i, a do'n i ddim eisiau mynd 'nôl i'r coleg. Fe wnaeth e sbarduno gorbryder difrifol, a do'n i ddim yn gallu gadael y tŷ am fisoedd ar ôl hynny, achos o'n i'n gwybod bod pobl yn hel clecs amdana i. Fe wnaethon ni ffonio'r coleg, ond do'n i ddim eisiau iddyn nhw wneud dim byd, rhag ofn i bethau fynd yn waeth.**
Alex, 18, coleg addysg bellach

Mae **un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (21 y cant) yn cael eu bwlio mewn ystafelloedd newid, ac mae **un ymhob saith** o ddisgyblion LHDT (13 y cant) yn cael eu bwlio yn ystod gwersi chwaraeon.


**Roedd y dosbarth yn eistedd y tu allan i'r ystafell newid ac fe wnaeth cyd-ddisgybl gydio yndda i, fy nal i lawr a fy ngwthio i i'r gornel. Yn y bôn roedd e'n trio dangos i bawb y gallai e wneud hyn i rywun heb ddim canlyniadau, ond hefyd gwneud i bobl chwerthin drwy awgrymu fy mod i'n hoyw ac yn mwynhau. Do'n i ddim yn agored hoyw ar y pryd. Mae'n rhan o 'ddiwylliant llanciau', ond dyw e ddim yn iawn.**
Marcus, 17, ysgol uwchradd ffydd

Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cael eu bwlio eu hunain, mae **tri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (62 y cant) yn clywed iaith homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd yn rheolaidd mewn gwersi chwaraeon, ac mae **mwy na dau ymhob pump** (44 y cant) yn teimlo nad ydyn nhw wedi'u cynnwys ac nad oes croeso iddyn nhw mewn gwersi chwaraeon.

**Mewn gwersi Addysg Gorfforol fe fyddai pobl yn rhedeg ar fy nhraws yn fwriadol, yn taflu pêl droed neu bêl rygbi ata i, ac yn trio ymosod arna i. Roedd yr athro'n dweud nad oedd e'n ddim byd. Dw i wedi gwneud popeth posib i osgoi gwersi Add Gorff.**
Leigh, 16, ysgol uwchradd

Mae **bron i un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (17 y cant) yn cael eu bwlio yn nhai bach yr ysgol.

## BLE DIGWYDDODD Y BWLIO?




> Fe wnaeth rhywun fygwth torri fy nghorn gwddf yn y dosbarth o flaen athro, ond wnaeth neb ymyrryd, ddigwyddodd dim byd. Ges i ddim help ganddyn nhw o gwbl.
>
> Riley, 19, mewn gwaith erbyn hyn




PENNOD 4

# YMATEB I IAITH A BWLIO

Mae llawer o ddisgyblion LHDT yn ysgolion Cymru yn dweud bod eu hysgolion yn aml yn peidio ymyrryd pan fo iaith a bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn digwydd.

Er bod mwy a mwy o ysgolion ledled Cymru yn datgan bod iaith a bwlio o'r fath yn annerbyniol, mae llawer yn dal i osgoi dweud hynny, yn enwedig yng nghyd-destun iaith a bwlio trawsffobaidd.

## YMATEB I FWLIO

Yn y rhan fwyaf o achosion o fwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd, mae disgyblion eraill a staff yr ysgol yn sefyll o'r neilltu.

Dim ond **chwarter** y disgyblion LHDT sy'n cael eu bwlio (25 y cant) sy'n dweud bod eu hathrawon yn ymyrryd os ydyn nhw'n bresennol yn ystod y bwlio. Dim ond **14 y cant** sy'n dweud bod staff eraill yr ysgol sy'n bresennol yn ymyrryd, a dim ond **chwech y cant** sy'n dweud bod penaethiaid sy'n bresennol yn gwneud hynny.

**Yn yr ysgol cyn yr ysgol yma oedd hi, cwynodd fy rhieni ond ddigwyddodd dim byd felly symudes i ysgol.**
Gwenllian, 15, ysgol uwchradd

Mae disgyblion eraill yn fwy tebygol o ymyrryd nag athrawon a staff yr ysgol pan fyddan nhw'n bresennol yn ystod bwlio, ond mae llawer ohonyn nhw'n osgoi gwneud hynny hefyd. **Hanner** y disgyblion LHDT (50 y cant) sy'n dweud bod disgyblion eraill sy'n bresennol yn ymyrryd.

## ADRODD AR FWLIO

Mae **bron i hanner** y disgyblion LHDT (47 y cant) sy'n profi bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn ysgolion Cymru yn dweud nad ydyn nhw byth yn sôn wrth neb am y peth.

Mae llawer o resymau pam nad yw disgyblion LHDT yn dweud wrth neb eu bod yn profi bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd. Mae teimlad o gywilydd am y bwlio, a chywilydd am eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhywedd nhw eu hunain yn atal rhai pobl rhag mynd i gael cymorth, ac mae llawer heb hyder y gallan nhw droi at oedolion i gael cymorth i daclo'r bwlio:

**O'n i ddim hyd yn oed yn gallu siarad efo athrawes am y peth, achos does neb wedi dweud wrthon ni ein bod ni'n gallu siarad efo athrawon am bethau fel hyn.**
Abbie, 15, ysgol uwchradd

**Fe hoffwn i i'r ysgol fod yn fwy ymwybodol o'r iaith mae disgyblion yn ei defnyddio a sut mae hynny'n effeithio ar ddisgyblion sy'n aelodau o'r gymuned LHDT+. Y rhan fwyaf o'r amser dw i ddim yn teimlo'n ddigon saff i herio pobl sy'n dweud pethau sarhaus ac yn defnyddio iaith drawsffobaidd, homoffobaidd a deuffobaidd o fy mlaen rhag ofn i hynny fy owtio I.**
Alex, 14, ysgol uwchradd

**Mae'n well yn y coleg, ond dw i ddim yn teimlo'n hyderus yn dweud wrth diwtoriaid na rhai o'r myfyrwyr a allai ddweud rhywbeth wrth fy rhieni'n ddamweiniol.**
Serena, 16, coleg addysg bellach

## YMATEB I IAITH

Mae iaith homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd yn digwydd yn aml heb ei herio gan athrawon, staff ysgol a disgyblion sy'n clywed hynny'n digwydd.

**Hoffwn i i'r ysgol wneud rhywbeth am y peth, ond maen nhw'n cerdded heibio llawer o fyfyrwyr sy'n defnyddio iaith homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd a does neb yn dweud dim byd.**
Emma, 15, ysgol uwchradd

**Dw i erioed wedi clywed athro yn herio ymddygiad fel yna. Er enghraifft, o'n i'n cael trafodaeth gyda bachgen oedd yn defnyddio iaith drawsffobaidd, ac roedd athro'n gwrando ond wnaeth e ddim ymateb o gwbl.**
Anna, 13, ysgol uwchradd ffydd

Dim ond **tri ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (29 y cant) sy'n adrodd bod athrawon neu staff yr ysgol yn herio iaith o'r fath yn gyson pan fyddan nhw'n ei chlywed. Mae **saith ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (71 y cant) yn adrodd mai weithiau, os o gwbl, mae staff ysgol yn herio iaith o'r fath ar ôl ei glywed, gyda 40 y cant yn dweud mai 'weithiau' mae staff yn ei herio, a 31 y cant yn dweud nad ydyn nhw byth yn ei herio.

**Mae termau fel 'mae hynna mor gay' a 'ffagot' yn tueddu i gael eu defnyddio heb i athrawon sylwi, neu maen nhw'n ei anwybyddu. Roedd yn teimlo'n ddiraddiol ac fe effeithiodd ar fy hunanhyder gan wneud i fi amau a allwn i ddweud wrth neb byth.**
Ryan, 19, yn y brifysgol erbyn hyn

**Does dim ots gan y staff os ydyn nhw'n clywed iaith homoffobaidd, ddeuffobaidd neu drawsffobaidd, ac mae'r athrawon hŷn yn dweud mai "cellwair rhwng disgyblion" yw e. Rydych chi'n gallu gweld un o'r athrawon tynhau drwyddo pan fydd e'n clywed iaith sarhaus, ond dyw e byth yn gwneud dim byd am y peth.**
Osian, 16, ysgol uwchradd

Mae disgyblion eraill yn llai tebygol nag athrawon a staff ysgol o herio iaith homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd pan fyddan nhw'n ei chlywed. **Un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (20 y cant) sy'n adrodd bod disgyblion eraill yn herio'r iaith yma'n gyson pan fyddan nhw'n ei chlywed. Mae **pedwar ymhob pump** (80 y cant) yn adrodd mai dim ond weithiau, os o gwbl, mae disgyblion eraill yn herio iaith o'r fath ar ôl ei chlywed, gyda 47 y cant yn dweud mai weithiau mae cyd-ddisgyblion yn ei herio, a 33 yn dweud nad ydyn nhw byth yn ei herio.

**Fe fyddai pobl yn fy nosbarth i'n dweud pethau pan nad o'n i yno. Weithiau byddwn i'n gallu eu clywed nhw wrth i fi adael y stafell. Doedd y tiwtoriaid ddim yn gwneud dim byd, ac weithiau fe fydden nhw'n ymuno i mewn hefyd. Byddai'r ambell ffrind oedd gen i yn dweud wrtha i pan fyddai rhywun wedi dweud rhywbeth, ond prin fydden nhw'n ymyrryd.**
Morgan, 17, coleg addysg bellach

## POLISÏAU IAITH A GWRTH-FWLIO

Mae **bron i dri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT yn ysgolion Cymru (56 y cant) yn dweud bod eu hysgolion yn datgan bod bwlio homoffobaidd a deuffobaidd yn annerbyniol.

Dim ond **un ymhob tri** (33 y cant) sy'n dweud bod eu hysgolion yn datgan bod bwlio trawsffobaidd yn annerbyniol.

Mae **hanner** y disgyblion LHDT (52 y cant) yn dweud bod eu hysgolion yn datgan bod bwlio homoffobaidd a deuffobaidd yn annerbyniol. Yn benodol, mae **dau ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (41 y cant) yn dweud bod eu hysgol yn datgan bod defnyddio'r gair 'gay' mewn ffordd negyddol yn annerbyniol.

Dim ond **tri ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (29 y cant) sy'n dweud bod eu hysgol yn datgan bod defnyddio iaith drawsffobaidd yn annerbyniol.

> O'n i mewn gwers maths, ac roedd bachgen y tu ôl i fi yn taflu peniau a phapur at fy mhen i ac yn fy ngalw i'n lesbiad. Wnaeth yr athrawes ddim byd.
>
> Anna, 13, ysgol uwchradd ffydd



PENNOD 5

# DYSGU AM FATERION LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS

Mae llawer o ddisgyblion LHDT yn ysgolion Cymru yn dweud nad ydyn nhw byth yn cael dysgu am faterion LHDT, gan gynnwys mewn dosbarthiadau am berthnasoedd a rhyw.

Dydy **tri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT yn ysgolion Cymru (58 y cant) byth yn cael dysgu dim am faterion LHDT.

**Does dim byd am faterion LHDT wedi cael ei drafod mewn ffordd bositif yn yr ysgol erioed.**
Anna, 13, ysgol uwchradd ffydd

**Oherwydd na ches i erioed gyfle i drafod dim byd yn ymwneud â materion LHDT yn yr ysgol, fe wnes i fygu fy hunaniaeth am amser maith. O'n i'n meddwl ei fod yn beth annaturiol yr oedd pobl yn edrych i lawr arno.**
Grace, 19, yn y brifysgol erbyn hyn

**Yr unig wybodaeth rydyn ni'n gael am y peth yw taflenni yn y llyfrgell.**
Owain, 18, coleg addysg bellach

## DYSGU AM BERTHNASOEDD A RHYW

Er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc LHDT yn cael rhyw fath o addysg am gael perthnasoedd iachus ac arfer rhyw diogel, ychydig iawn sydd wedi dysgu am hynny yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw.

**Yr unig beth dw i wedi'i ddysgu yn yr ysgol yw addysg rhyw i bobl syth. Roedd rhaid i fi ddysgu am berthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw drwy holi pobl a chwilio ar y rhyngrwyd. Roedd y ffaith bod yr ysgol heb ddysgu dim byd i ni am berthnasoedd rhwng pobl o'r un rhyw pan o'n i'n ifanc ac yn archwilio yn golygu fy mod i'n teimlo allan ohoni ac roedd hi'n teimlo hyd yn oed yn anoddach meddwl am ddod allan.**
Rachel, 18, coleg addysg bellach

**Heblaw am gyfeiriad cyflym mewn un wers am gydsyniad, dydy'r ysgol erioed wedi rhoi unrhyw addysg am ddim byd LHDT hyd y gwn I.**
Rhiannon, 14, ysgol uwchradd

**Mae addysg rhyw LHDT-gynhwysol yn hollol hanfodol. Fe hoffwn i petai hynny'n cael ei ddysgu.**
Josh, 17 coleg dosbarth chweched

Dim ond **un ymhob deg** o ddisgyblion LHDT Cymru (10 y cant) sydd wedi dysgu yn yr ysgol ble i fynd am gymorth a chyngor am berthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw.

Er bod mwyafrif y disgyblion LHDT – **85 y cant** – wedi dysgu am ddulliau atal cenhedlu a rhyw diogel yn yr ysgol, dim ond **un ymhob chwech** o ddisgyblion LHDT (16 y cant) sydd wedi dysgu am hyn yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw.


Dim ond **un ymhob wyth** o ddisgyblion LHDT (12 y cant) sydd wedi dysgu sut i gael perthnasoedd iachus yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw.

Dim ond **un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (20 y cant) sydd wedi dysgu am gydsyniad yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw, a dim ond **un ymhob pump** (18 y cant) sydd wedi dysgu am drais neu gamdriniaeth yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng cyplau o'r un rhyw.

**Dw i'n credu mai diffyg addysg a diffyg dealltwriaeth am faterion LHDT ydy'r rheswm nad ydw i allan eto. Dw i'n credu fy mod i wedi achosi llawer o bryder i fi fy hunan drwy fethu derbyn fy mod i'n hoyw. Doeddwn i ddim yn nabod neb oedd yn hoyw, a ddywedodd neb wrtha i bod unrhyw beth heblaw bod yn heterorywiol yn dderbyniol. Dw i'n credu y dylen ni fod wedi siarad am berthnasoedd heblaw perthnasoedd heterorywiol mewn gwersi ABCh ac addysg rhyw. Mae'r dosbarthiadau yna'n hen ffasiwn, ac fe ddylai fod polisi cenedlaethol er mwyn sicrhau nad oes yr un person ifanc yn methu deall pam nad ydyn nhw'n ffitio I mewn.**

Beca, 18, yn y brifysgol erbyn hyn

## YDYCH CHI WEDI DYSGU AM...




## DYSGU AM FATERION LHDT EHANGACH

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion LHDT Cymru yn dweud nad ydyn nhw erioed wedi cael dysgu gwybodaeth allweddol yn yr ysgol am ystyr bod yn LHDT.

Dydy **saith ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (71 y cant) erioed wedi dysgu yn yr ysgol bod cyplau o'r un rhyw yn gallu priodi a chael partneriaethau sifil (mae cyplau o'r un rhyw yn gallu priodi'n gyfreithlon ers 2013). Mae **mwy nag wyth ymhob deg** (84 y cant) yn dweud nad ydyn nhw erioed wedi cael dysgu am y gwahanol ffyrdd y gall cyplau o'r un rhyw gael plant.

Mae **mwy na phedwar ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (84 y cant) yn dweud nad ydyn nhw erioed wedi trafod na dysgu am ddeurywioldeb yn yr ysgol.

Mae **mwy na phedwar ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (87 y cant) yn dweud nad ydyn nhw erioed wedi trafod na dysgu am hunaniaeth rhywedd nac ystyr 'traws'. Dim ond **chwech y cant** o ddisgyblion LHDT Cymru sydd wedi dysgu ble i fynd i gael cymorth neu gyngor ynghylch bod yn draws.

O'r disgyblion hynny sy'n dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dweud bod dysgu am faterion LHDT wedi'i gyfyngu i feysydd penodol o'r cwricwlwm. Dim ond **un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (22 y cant) sydd wedi trafod neu ddysgu am faterion leLHDT mewn dosbarthiadau ehangach, fel y dosbarth Cymraeg neu'r dosbarth Daearyddiaeth.

**Mae angen ychwanegu rhywbeth at y cwricwlwm. Mae angen i bobl gael eu ddysgu am ryw diogel a hawliau LHDT.**

Zena, 18, coleg chweched dosbarth

**Mae angen dysgu pobl am faterion LHDT. Dw i'n teimlo bod llawer o'r problemau sy'n wynebu pobl LHDTQ yn digwydd oherwydd nad yw pobl yn ein deall ni.**

Carys, 15, ysgol uwchradd




PENNOD 6

# CEFNOGAETH I DDISGYBLION LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS

Er bod mwy a mwy o ysgolion Cymru yn cymryd camau hollbwysig i gefnogi eu disgyblion LHDT, mae llawer o ysgolion nad ydyn nhw'n gwneud hynny hyd yn oed heddiw.

Mae **tri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (62 y cant) yn dweud nad oes oedolyn yn yr ysgol y gallan nhw siarad â nhw ynghylch bod yn LHDT.

Dim ond **un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (18 y cant) sy'n dweud bod eu hysgol yn darparu gwybodaeth am bynciau LHDT ac yn cyfeirio disgyblion at adnoddau a sefydliadau LHDT perthnasol. **Un ymhob saith** (14 y cant) sy'n dweud bod eu hysgol yn dweud wrthyn nhw ble gallan nhw gael gafael ar wybodaeth ar-lein ynghylch materion LHDT.

Mae **tri ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (29 y cant) yn dweud bod gan eu hysgol grŵp LHDT ar gyfer disgyblion.

**Fe wnaeth ambell un o Flwyddyn 13 greu grŵp LHDT ac mae wedi fy helpu i a llawer un arall, mae wedi rhoi hwb i'n hyder ni a'n gwneud ni'n fwy cyfforddus yn ein croen ein hunain.**
Ceri, 16, coleg chweched dosbarth


Mae **un ymhob chwech** o ddisgyblion LHDT (16 y cant) yn dweud bod eu hysgol yn cadw llyfrau a ffilmiau gyda chymeriadau LHDT yn llyfrgell yr ysgol.

Mae **saith y cant** o ddisgyblion LHDT yn dweud bod eu pennaeth wedi siarad yn agored am gydraddoldeb LHDT, er enghraifft mewn gwasanaeth ysgol, ac mae **12 y cant yn** dweud bod eu hysgol wedi gwahodd siaradwyr i mewn i drafod cydraddoldeb LHDT.

**Fe gawson ni wasanaeth ysgol yn trafod sut gallai'r ysgol eich helpu chi tasech chi'n hoyw, a'r diwrnod wedyn fe wnaeth merch ddod allan fel person traws.**
Lleucu, 15, ysgol uwchradd

> Maen nhw wedi creu grŵp LHDT poblogaidd sy'n cwrdd bob pythefnos i drafod pethau. Mae'n rhoi cymuned o ffrindiau i ni, pobl sy'n deall ein gilydd.
>
> Emma, 16, ysgol uwchradd

## YDY EICH YSGOL…




Mae **tri ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (30 y cant) yn gwybod am o leiaf un aelod o staff yr ysgol sy'n agored LHDT.

Mae disgyblion LHDT yn llawer mwy tebygol o wybod am aelodau staff sy'n agored hoyw neu lesbiaidd nag am staff sy'n agored ddeurywiol neu draws. Mae **un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (19 y cant) yn gwybod am aelod o staff agored hoyw, a **15 y cant** yn gwybod am aelod o staff agored lesbiaidd, o gymharu â dim ond **tri y cant** sy'n gwybod am aelod o staff agored ddeurywiol, a dim ond **tri y cant** sy'n gwybod am aelod o staff agored draws.

**Fe wnaeth siarad gyda chwnselydd yr ysgol fy helpu i i siarad yn agored am fy rhywioldeb pan o'n i braidd yn ansicr am fy hunaniaeth. Fe helpodd hynny fi i gael hyder i ddod allan i'r criw bach cyntaf.**
Amy, 15, ysgol uwchradd

**Mae'r ysgol yma'n ymateb i unrhyw broblem, doedd yr hen ysgol ddim. Rydw i'n fwy hapus yma.**
Gwenllian, 15, ysgol uwchradd

## CEFNOGAETH BENODOL I DDISGYBLION TRAWS

Mae rhai o ysgolion Cymru yn cymryd camau hanfodol er mwyn sicrhau bod eu disgyblion traws yn cael cefnogaeth i fod yn nhw eu hunain yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion traws yn dweud bod y gefnogaeth sydd ar gael yn annigonol, neu nad yw'n ymestyn i bob rhan o fywyd yr ysgol.

Mae **tri ymhob pump** o ddisgyblion traws (62 y cant) yn dweud bod staff yn eu hysgol yn anghyfarwydd â'r term 'traws' a'i ystyr.

Mae **hanner** y disgyblion traws (50 y cant) yn adrodd nad ydyn nhw'n siarad ag aelod o staff yn yr ysgol ynghylch bod yn draws.

**O'dd un athrawes yn cŵl am bopeth, ond nath fy athrawes arall owtio fi wrth fy rhieni heb fy nghaniatâd.**
Jules, 18, ysgol uwchradd

**Fe ddywedais i wrth athro fy mod i'n draws cyn i fi ddweud wrth fy ffrindiau hyd yn oed. Gyda chefnogaeth arbennig gan staff eraill yn yr ysgol, fe ddywedais i wrth ffrindiau ac wedyn y rhan fwyaf o'r teulu. Mae'r staff i gyd yn gwybod fy mod i'n draws, ac maen nhw wedi bod yn ddi-fai.**
Olly, 18, ysgol uwchradd

## CEFNOGI DISGYBLION TRAWS I FOD YN NHW EU HUNAIN YN YR YSGOL

Er bod llawer o ddisgyblion traws yn cael cefnogaeth yn yr ysgol i gael eu hadnabod gyda'r enw sy'n well ganddyn nhw ac i wisgo dillad neu wisg sy'n unol â'u hunaniaeth rhywedd, i lawer dydy'r gefnogaeth yma ddim yn ymestyn i rai rhannau o fywyd yr ysgol.

Mae **dros hanner** y disgyblion traws (53 y cant) yn dweud nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r tai bach maen nhw'n teimlo'n gyfforddus ynddyn nhw yn yr ysgol.

**Mae gan adeilad newydd yr ysgol fwy o dai bach neillryw nag sydd o dai bach rhywedd-benodol, sy'n wych o beth. Does dim rhaid i fi boeni a fydd rhywun yn fy herio i ac a fydda i'n ddiogel.**
Macs, 16, ysgol uwchradd


Mae **saith ymhob deg** o ddisgyblion traws (69 y cant) yn dweud nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r ystafelloedd newid maen nhw'n teimlo'n gyfforddus ynddyn nhw yn yr ysgol, ac mae nifer tebyg (68 y cant) yn dweud nad ydyn nhw'n gallu chwarae ar gyfer y tîm chwaraeon maen nhw'n teimlo'n gyfforddus ynddo.

Mae **dau ymhob pump** o ddisgyblion traws (42 y cant) yn dweud nad ydyn nhw'n gallu cael eu hadnabod gyda'u dewis enw yn yr ysgol.

**Yn yr ysgol uwchradd gwrthodwyd i mi newid fy enw, er mod i wedi'i newid yn gyfreithiol.**
Leigh-Anne, 16, coleg chweched dosbarth

Mae **un ymhob pedwar** o ddisgyblion traws (24 y cant) yn dweud nad ydyn nhw'n gallu gwisgo dillad a gwisg ysgol yn unol â'u hunaniaeth rhywedd yn yr ysgol.

## CEFNOGI DISGYBLION TRAWS





PENNOD 7

# LLES A IECHYD MEDDWL

Er bod mwy a mwy o bobl ifanc LHDT yng Nghymru yn profi amgylchedd dysgu cadarnhaol yn yr ysgol, dydy hyn ddim yn wir i lawer. Mae pobl ifanc LHDT yn dal i brofi lefelau annerbyniol o uchel o iechyd meddwl gwael, gyda'r risg i bobl ifanc draws yn arbennig o uchel.

## RHAN O GYMUNED YR YSGOL

Mae **un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (22 y cant) – gan gynnwys **40 y cant** o ddisgyblion traws – yn dweud nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae **mwy na dau ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (43 y cant) – gan gynnwys **68 y cant** o ddisgyblion traws – yn poeni am gael eu bwlio yn yr ysgol.

Mae **bron i hanner** y disgyblion LHDT (47 y cant) – gan gynnwys **68 y cant** o ddisgyblion traws – yn dweud nad ydyn nhw'n gallu bod yn nhw eu hunain yn yr ysgol.

Mae **dau ymhob pump** o ddisgyblion LHDT (41 y cant) yn dweud nad ydyn nhw'n mwynhau mynd i'r ysgol. Mae **bron i hanner** y disgyblion LHDT (45 y cant) – gan gynnwys **63 y cant** o ddisgyblion traws – yn dweud nad ydyn nhw'n teimlo'n rhan o gymuned yr ysgol.

**O'n i'n i'n teimlo'n gyfan gwbl unig drwy'r ysgol a'r coleg.**
Matthew, 17, coleg chweched dosbarth

## CYRHAEDDIAD, UCHELGAIS AC OSGOI MYND I'R YSGOL

Mae llawer o ddisgyblion LHDT sy'n cael eu bwlio yn dweud bod y bwlio yma wedi cael effaith sylweddol ar eu dysgu a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae **tri ymhob pump** o ddisgyblion LHDT sy'n cael eu bwlio (62 y cant) yn teimlo bod bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd wedi cael effaith negyddol ar eu cynlluniau ar gyfer addysg yn y dyfodol.

**Achos yr holl fwlio, fe adawais i'r ysgol cyn gynted ag y gallwn i. Does gen i ddim bwriad mynd yn ôl i addysg uwch achos mae gwir ofn arna i y bydda i'n cael fy mwlio unwaith eto, a dw i ddim yn meddwl y gallwn i oroesi hynny y tro yma.**
Kara, 17

Mae **mwy nag un ymhob pump** o ddisgyblion LHDT yn gyffredinol (23 y cant) wedi ystyried newid ysgol gan nad yw eu hysgol yn amgylchedd cefnogol ar eu cyfer fel person lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu draws, ac mae **wyth y cant** o ddisgyblion LHDT wedi mynd ymlaen i newid ysgol am y rheswm yma.

**O'r blaen, o'n i eisiau aros ymlaen ar gyfer y chweched ar ôl gorffen TGAU, ond nawr dw i'n bwriadu mynd i'r coleg, sydd ryw awr neu ddwy i ffwrdd.**
Rhiannon, 14, ysgol uwchradd

Mae **hanner** y disgyblion LHDT sy'n cael eu bwlio (51 y cant) wedi osgoi mynd i'r ysgol oherwydd bwlio ynghylch bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws.

**Mi wnaeth o effeithio ar fy ngwaith ysgol i achos o'n i'n gwrthod mynd i'r wers, a weithiau mi fyswn i'n dweud wrth fy rhieni fy mod i'n sâl fel na fyddai raid i fi fynd i'r ysgol. Felly do'n i ddim yn cael yr addysg roedd ei hangen arna i.**
Abbie, 15, ysgol uwchradd

Yn fwy cyffredinol, mae **tri ymhob pedwar** o ddisgyblion LHDT (73 y cant) wedi osgoi mynd i'r ysgol ar ryw adeg. Mae **un ymhob deg** o ddisgyblion LHDT (10 y cant) wedi cael eu gwahardd o'r ysgol.

**O'n i dan gymaint o straen adeg TGAU, o'n i prin yn gallu gweithio, prin yn gallu gorfodi fy hunan i ddod i'r ysgol hyd yn oed. Fe fethais i lawer o wersi a ffug-arholiadau, ac fe fues i bron â methu.**
Rachel, 18, coleg addysg bellach

## IECHYD MEDDWL

Mae lefelau iechyd meddwl gwael yn frawychus o uchel ymhlith pobl ifanc LHDT Cymru, gyda'r risg i bobl ifanc draws yn arbennig o uchel.

**Mae bywyd ysgol yn gallu gwneud i fi deimlo fel taswn i'n boddi weithiau, fel taswn i'n methu cyrraedd y lan.**
Seren, 13, ysgol uwchradd

Mae **tri ymhob pedwar** o bobl ifanc draws (77 y cant) wedi niweidio'u hunain yn fwriadol ar ryw adeg. Ar gyfer disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol nad ydyn nhw'n draws, mae **tri ymhob pump** (61 y cant) wedi hunan-niweidio. Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrifon y Gwasanaeth Iechyd Gwladol mai tua **un ymhob deg** o bobl ifanc gwledydd Prydain yn fwy cyffredinol sydd wedi niweidio'u hunain yn fwriadol.

Mae **naw ymhob deg** o bobl ifanc draws (92 y cant) wedi meddwl am ladd eu hunain. Ar gyfer disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol nad ydyn nhw'n draws, mae **tri ymhob pedwar** (74 y cant) wedi meddwl am y peth. Mae hyn yn llawer uwch na'r ystadegau ar gyfer pobl ifanc yn gyffredinol: mae elusen Young Minds yn amcangyfrif mai tua **un ymhob pedwar** o bobl ifanc yn gyffredinol sydd wedi meddwl am ladd eu hunain.

Mae **dau ymhob pump** o bobl ifanc draws (41 y cant) wedi ceisio lladd eu hunain ar ryw adeg. Ar gyfer disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol nad ydyn nhw'n draws, mae **un ymhob pedwar** (25 y cant) wedi ceisio lladd eu hunain. O gymharu, mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn amcangyfrif, yn y boblogaeth yn gyffredinol, mai **13 y cant** o ferched 16-24 oed a **phump y cant** o fechgyn 16-24 oed sydd wedi ceisio lladd eu hunain.

**O'n i'n cael fy mwlio, ac roedd hynny'n gwneud popeth yn anoddach. Roedd cymaint o gywilydd gen i am fy rhywioldeb fel fy mod yn meddwl am ladd fy hunan, achos o'n i ddim yn gwybod sut i deimlo'n normal eto a'i dderbyn.**
Amber, 19, yn y brifysgol erbyn hyn

> Fe wnaeth y bwlio ddigwyddodd i fi gael effaith uniongyrchol ar fy iechyd meddwl i, a dw i'n credu mai dyna wnaeth sbarduno fy iselder, hunan-niweidio a meddwl am ladd fy hunan.
>
> Jade, 19, yn y brifysgol erbyn hyn



PENNOD 8

# BYWYD Y TU ALLAN I'R YSGOL

Er bod y rhyngrwyd yn cynnig cyfleoedd hollbwysig i'r rhan fwyaf o bobl LHDT Cymru o ran cael cymorth a gwybodaeth am fod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws, mae hefyd yn golygu risgiau sylweddol.

Mae llawer o bobl ifanc LHDT yn dweud nad oes oedolyn gartref gyda nhw y gallan nhw siarad â nhw ynghylch bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws, ac mae elusennau, grwpiau ieuenctid a sefydliadau LHDT yn aml yn hanfodol fel ffynonellau cymorth.

## MYND AR-LEIN

### CYMORTH A GWYBODAETH

Mae llawer o bobl ifanc LHDT Cymru yn defnyddio'r rhyngrwyd i'w helpu i ddeall eu hunain, canfod modelau rôl cadarnhaol a chael gwybodaeth a chymorth.

Mae **bron â bod yr holl** bobl ifanc (95 y cant) yn dweud bod y rhyngrwyd wedi eu helpu nhw i ddeall rhagor am eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu eu hunaniaeth rhywedd, ac mae **93 y cant** yn dw eud bod y rhyngrwyd wedi eu helpu i gael cyngor a chymorth am hyn.

**Mae popeth rydw i wedi'i ddysgu am faterion LHDT wedi bod drwy ddarllen pethau fy hunan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.**
Rebecca, 18, mewn gwaith erbyn hyn

**Mae'r rhyngrwyd a gwefannau cyfryngau cymdeithasol wedi fy helpu i i ddeall a derbyn fy rhywioldeb.**
Amelia, 16, coleg chweched dosbarth

**Fe gymerodd hi gymaint o amser i fi sylweddoli fy rhywioldeb oherwydd bod cyn lleied o drafod ac addysg am y peth yn yr ysgol ac yn y cyfryngau prif ffrwd. Y rhyngrwyd a rhyngweithio gyda phobl LHDT eraill helpodd fi i sylweddoli fy rhywioldeb a'i dderbyn.**
Llinos, 18, yn y brifysgol erbyn hyn

Mae **bron â bod yr holl** bobl ifanc LHDT (94 y cant) yn dweud bod y rhyngrwyd wedi eu helpu nhw i ganfod modelau rôl cadarnhaol.

**Mae llawer o'r modelau rôl sydd gen i yn dod o flogiau ar-lein neu gyfrifon Instagram. Dw i wedi clywed llawer o'u straeon dod allan nhw. Dw i'n eu gweld nhw fel modelau rôl mawr a dw i'n teimlo y galla i droi atyn nhw os bydda i byth angen cyngor, yn ogystal â fy ffrindiau agos.**
Sian, 13, ysgol uwchradd

**YouTube oedd y prif le o'n i'n troi ato ar gyfer pethau LHDT. Fe wyliais i gannoedd o fideos, clipiau a straeon byrion am flynyddoedd cyn dod allan.**
Danielle, 16, coleg chweched dosbarth

Mae **bron â bod yr holl** bobl ifanc LHDT (93 y cant) yn dweud eu bod nhw'n gallu bod yn nhw eu hunain ar-lein.

### CAMDRINIAETH A CHYNNWYS HOMOFFOBAIDD, DEUFFOBAIDD A THRAWSFFOBAIDD

Fodd bynnag, mae'r rhyngrwyd hefyd yn golygu risgiau sylweddol i bobl ifanc LHDT Cymru. Mae **bron i hanner** y bobl ifanc LHDT (46 y cant) wedi wynebu camdriniaeth homoffobaidd, ddeuffobaidd neu drawsffobaidd ar-lein. Yn benodol, mae **63 y cant** o bobl ifanc draws wedi profi camdriniaeth o'r fath.

Mae **pedwar ymhob pump** o bobl ifanc LHDT sydd wedi cael eu bwlio ar-lein (79 y cant) yn dweud na wnaethon nhw adrodd am y gamdriniaeth wrth y wefan, y gêm neu'r ap lle digwyddodd.

Hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi'u targedu'n benodol gan fwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd ar-lein, mae llawer o bobl ifanc LHDT Cymru yn gweld homoffobia, deuffobia a thrawsffobia'n digwydd yn gyson ar-lein.

Mae **bron â bod yr holl** bobl ifanc LHDT (97 y cant) yn gweld cynnwys homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd ar-lein, ac mae **mwy na dau ymhob pump** (43 y cant) yn gweld y cynnwys hwn 'yn aml'. Mae'r cynnwys yma'n gallu digwydd ar ffurf negeseuon, sylwadau, lluniau a fideos sarhaus am bobl LHDT, gan gynnwys mewn gemau ar-lein.

Ar ôl gweld y cynnwys yma, mae **llai na hanner** (46 y cant) yn dweud eu bod wedi adrodd amdano wrth y wefan, y gêm neu'r ap.

Yn gyffredinol, mae **tri ymhob pump** o bobl ifanc LHDT (60 y cant) yn credu bod platfformau arlein yn annhebygol o wneud dim ynghylch taclo digwyddiadau neu gynnwys homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd pan fydd rhywun yn adrodd amdanyn nhw.

## YMDDYGIAD PERYGLUS AR-LEIN

Mae'r rhyngrwyd hefyd yn gallu bod yn gyfle i bobl ifanc LHDT gymryd rhan mewn ymddygiad peryglus. O'r bobl ifanc LHDT rhwng 13 ac 19 oed, mae **dau ymhob pump** (42 y cant) wedi mynd i gwrdd â rhywun ar ôl eu cyfarfod a siarad â nhw ar-lein. Mewn rhai achosion, mae pobl ifanc LHDT yn cwrdd â phobl sy'n hŷn na nhw, neu maen nhw'n osgoi sôn wrth neb eu bod yn mynd i gwrdd â rhywun.

Mae **un ymhob pump** o bobl LHDT o dan 18 oed (21 y cant) wedi defnyddio apiau caru i oedolion fel Tinder, Grindr a Her.

Mae **hanner** y bobl ifanc LHDT rhwng 13 ac 19 oed (49 y cant) wedi cael neu wedi anfon lluniau rhywiol, noeth neu hanner-noeth at rywun roedden nhw'n siarad â nhw ar-lein.

# CEFNOGAETH GARTREF AC YN Y GYMUNED

Dim ond dau ymhob pump o bobl ifanc LHDT Cymru (42 y cant) sydd ag oedolyn gartref y gallan nhw siarad â nhw am fod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws.

**Roedd dod allan wrtha i fy hunan yn anodd, achos dw i'n dal ddim wir yn derbyn fy hunan. Fodd bynnag, dw i'n credu y byddai dod allan wrth fy rhieni yn help mawr yn hynny o beth. Ond fe fydd hi'n anodd iawn, achos dw i ddim yn gwybod eu barn nhw am bobl drawsryweddol.**
Carwyn, 13, ysgol uwchradd ffydd

**Fe ddes i allan wrth fy rhieni fel rhywun di-rywedd rai blynyddoedd yn ôl ac roedd yr ymateb mor erchyll, alla i ddim codi unrhyw beth yn ymwneud â rhywedd na rhywioldeb eto. Roedd arna i ofn fy nhad am amser hir ar ôl hynny, ac fe achosodd lawer o broblemau sy'n dal heb eu datrys. Dw i ddim yn meddwl y gwna i byth ymddiried yn llwyr yn fy rhieni eto.**
Rowan, 17, coleg chweched dosbarth

**Dw i heb ddod allan wrth neb. Dw i'n ddeurywiol ac yn 17 oed, ond mae fy rhieni'n hollol ddeuffobaidd ac yn dweud pethau fel "mae pobl ddeurywiol yn farus" wrth siarad am enwogion deurywiol.**
Megan, 17, ysgol uwchradd

Gall elusennau a gwasanaethau ieuenctid lleol fod yn ffynhonnell allweddol o gefnogaeth i bobl ifanc. Mae **un ymhob chwech** o bobl ifanc LHDT (15 y cant) wedi cysylltu â sefydliad LHDT i gael cymorth neu wybodaeth am fod yn LHDT, ac mae'r un ganran wedi bod i wasanaeth ieuenctid LHDT, er enghraifft grŵp ieuenctid LHDT.

**Mae'n beth unig iawn, peidio nabod neb arall sy'n hoyw. O'n i'n meddwl y byddwn i'n siŵr o ddod o hyd i un ffrind hoyw ar ôl mynd i'r coleg. Mae'n teimlo fel petai pawb arall yn profi bywyd ac yn mwynhau, a does gen i neb y galla i gael cyfeillgarwch agos gyda nhw.**
Matthew, 17, coleg chweched dosbarth

**Dw i wedi dod allan wrth fy holl ffrindiau Sgowtio, ond ddim wrth y teulu. Dw i'n gwybod bod y Sgowtiaid yn amgylchedd diogel ac y ca I gefnogaeth.**
Michael, 19, yn y brifysgol erbyn hyn

Mae pobl ifanc draws yn arbennig o debygol o fynd i gael cymorth o'r fath: mae **bron i ddau ymhob pump** o bobl ifanc draws (37 y cant) wedi cysylltu â sefydliad traws neu wedi bod i grŵp ieuenctid traws i gael cymorth neu wybodaeth am fod yn draws.

## MODELAU RÔL, CYNGHREIRIAD AC UCHELGAIS

Mae modelau rôl agored LHDT a'u cynghreiriaid gartref, yn yr ysgol, yn y gymuned neu yn llygaid y cyhoedd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi pobl ifanc LHDT i fod yn nhw eu hunain.

**Fy model rôl i ydy Olly Alexander o'r band Years & Years. Mae o wedi bod o help mawr i fi o ran derbyn fi fy hunan a pheidio teimlo cywilydd am fy rhywioldeb, achos mae o wedi siarad lot am faterion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws.**
Ffion, 15, ysgol uwchradd

**Cymeriadau o raglenni teledu yw fy modelau rôl i fel arfer. Fe wnaethon nhw fy helpu i i ddod i delerau gyda phwy o'n i, ac fe ddechreuais i ddod yn fwy cyfforddus gyda'r syniad o berthnasoedd rhwng dwy ferch.**
Nadia, 18 ysgol uwchradd

**Fy ffrindiau yw fy modelau rôl. Maen nhw'n gryf, yn poeni amdana i ac yn credu yndda i. Eu ffydd nhw yndda i sy'n rhoi'r nerth i fi gario 'mlaen.**
Carys, 15, ysgol uwchradd

Wrth edrych ymlaen, fe fu pobl ifanc LHDT yn rhannu eu huchelgais a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.

**Dw i'n gobeithio gallu ysbrydoli pobl eraill i fod yn agored ac i ddeall, a bod yn fodel rôl ac yn ffynhonnell gobaith i bobl eraill sy'n cael trafferth gyda'u teimladau a'u hunaniaeth.**
Jack, 19, mewn cyflogaeth erbyn hyn

**Hoffwn i fyw mewn byd lle mae cyfeiriadedd rhywiol yn ddibwys, lle dyw pobl ddim yn cael eu barnu ar sail pwy maen nhw'n teimlo atyniad atyn nhw. Yn fwy na dim, hoffwn i weld pobl o bob math yn caru ac yn parchu ei gilydd.**
Marc, 18, coleg chweched dosbarth

## HOFFWN I FOD YN...

DDYLUNYDD GEMAU FIDEO
SŴOLEGYDD
DREFNYDD YMGYRCHOEDD
NYRS PLANT
FEDDYG
AWDUR
SEICOLEGYDD CLINIGOL
GWNSELYDD
GOMEDÏWR
WEITHIWR CYMDEITHASOL
ARTIST
GYFREITHIWR
GARTWNYDD
YMGYRCHYDD
ATHRO CYMRAEG
GYFRIFIADURWR
BRIF WEINIDOG BENYWAIDD HOYW CYNTAF
WEITHIWR CYMDEITHASOL
DDIPLOMYDD
DDADANSODDWR SAFLE TROSEDD
BEILOT RAF
WYDDONYDD BIOLEGOL
WLEIDYDD
ANTHROPOLEGYDD FFORENSIG
LLAWFEDDYG
GYFARWYDDWR
FARGYFREITHIWR

## FI FY HUNAN.
Carla, 16, coleg chweched dosbarth



# ARGYMHELLION: YSGOLION, COLEGAU AC ATHRAWON

## 1. DECHREUWCH GYDA'R PETHAU SYLFAENOL

Dylai fod gan ysgolion a cholegau bolisïau a gweithdrefnau eglur sy'n cael eu hyrwyddo'n eang ar atal a thaclo iaith a bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd, gan gynnwys camdriniaeth ar-lein. Dylid cymryd pob achos o fwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd o ddifri a dylid gweithredu arnynt yn gyflym.

## 2. DANGOSWCH ARWEINIAD EGLUR

Dylai penaethiaid ac uwch reolwyr anfon neges gref i'r holl fyfyrwyr a staff bod iaith a bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn annerbyniol. Dylent hefyd fod yn eglur ynghylch creu amgylchedd dysgu cynhwysol ar gyfer pob person ifanc.

## 3. CRËWCH GWRICWLWM CYNHWYSOL

Dylai ysgolion sicrhau bod pobl a phrofiadau LHDT yn cael eu hadlewyrchu ledled y cwricwlwm, i ddathlu gwahaniaeth a gwneud amrywiaeth pobl LHDT yn weladwy. Dylent sicrhau bod addysg rhyw a chydberthynas yn rhoi ystyriaeth i anghenion a phrofiadau pobl LHDT, gan gynnwys mewn trafodaethau ynghylch diogelwch ar-lein. Fe all ac fe ddylai'r gwaith hwn ddechrau cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

## 4. PARATOWCH EICH STAFF

Dylid gweld creu amgylchedd cynhwysol a thaclo homoffobia, deuffobia a thrawsffobia fel cyfrifoldeb pob aelod o staff. Dylid hyfforddi'r holl staff dysgu a'r staff eraill ar daclo iaith a bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd. Yn ogystal, dylid hyfforddi staff dysgu ar ddiogelwch ar-lein, ar gefnogi pobl ifanc LHDT ac ar les a iechyd meddwl pobl ifanc.

## 5. DATHLWCH WAHANIAETH

Gwnewch yn siŵr bod pob rhan o'ch ysgol neu'ch coleg yn gallu dathlu gwahaniaeth a chreu amgylchedd cynhwysol i'r holl bobl ifanc. Dylai ysgolion a cholegau roi sylw i fodelau rôl LHDT amrywiol drwy groesawu siaradwyr allanol a chreu amgylchedd lle gall athrawon LHDT fod yn agored am eu hunaniaeth.

## 6. DARPARWCH WYBODAETH A CHYMORTH

Dylai ysgolion a cholegau ddarparu gwybodaeth am bynciau LHDT a chyfeirio at adnoddau ar-lein a sefydliadau LHDT, gan gynnwys grwpiau ieuenctid LHDT, i'r holl fyfyrwyr. Dylent gadw adnoddau a llyfrau sy'n cynnwys cymeriadau LHDT yn y llyfrgell, a chyfeirio a darparu gwybodaeth i rieni pobl ifanc LHDT. Gall **Gwasanaeth Gwybodaeth Stonewall Cymru** roi gwybodaeth i chi ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc LHDT yn lleol.



## 7. DARPARWCH GYMORTH PENODOL I BOBL IFANC DRAWS

Dylid cynnwys cyfeiriadau penodol at y gwaith o gefnogi pobl ifanc draws yn yr holl bolisïau perthnasol, a dylid sicrhau bod yr holl aelodau staff yn eu deall. Dylai staff weithio gyda phob person ifanc traws a gofyn iddyn nhw beth fyddai'n gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus, a thrafod lefelau o gyfrinachedd, gan sicrhau bod ganddynt fynediad at wisg ysgol, gweithgareddau a chyfleusterau maen nhw'n teimlo'n gyfforddus ynddynt. Dylid cyfeirio'n eglur at adnoddau a chymorth lleol.

## 8. GWARCHODWCH IECHYD A LLES

Dylai fod gan ysgolion a cholegau gynllun ar waith i gefnogi anghenion iechyd a lles pobl ifanc LHDT. Dylai staff bugeilio, tywys a chymorth gael eu hyfforddi i gefnogi anghenion iechyd a lles penodol pobl ifanc LHDT, a lle bo'n bosib, dylid hyfforddi'r holl athrawon ar gymorth cyntaf iechyd meddwl. Dylai ysgolion a cholegau ei gwneud yn eglur i'r holl bobl ifanc y gallan nhw siarad â staff bugeiliol ynghylch materion yn ymwneud â'u hunaniaeth rhywedd a'u cyfeiriadedd rhywiol, a dylid rhoi gwybod iddynt pa gymorth a chwnsela sydd ar gael iddynt.

## 9. CYNHWYSWCH BOBL IFANC LHDT

Dylid llunio cynlluniau i daclo bwlio a chefnogi pobl ifanc LHDT, a hynny mewn ymgynghoriad â phobl ifanc LHDT, a dylai ysgolion greu cyfleoedd i bobl ifanc LHDT siarad â staff am eu profiadau a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Dylai pobl ifanc LHDT a chynghreiriaid i'r gymuned LHDT gael cefnogaeth i sefydlu eu grwpiau LHDT a chydraddoldeb eu hunain. Dylai staff osgoi cymryd yn ganiataol pwy sy'n lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws, a dylent gefnogi person ifanc i ddefnyddio geiriau o'u dewis nhw i ddisgrifio eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth rhywedd.

## 10. GWEITHIO GYDA RHIENI, GOFALWYR A SEFYDLIADAU LLEOL

Dylai ysgolion a cholegau siarad â rhieni a gofalwyr am eu gwaith yn mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd ac yn cefnogi pobl ifanc LHDT, ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt. Dylai ysgolion a cholegau weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol, ysgolion, grwpiau ieuenctid LHDT, gwasanaethau ieuenctid gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a sefydliadau eraill er mwyn rhannu arferion gorau ac atgyfnerthu eu gwaith yn cefnogi pobl ifanc LHDT ac yn taclo bwlio.



# ARGYMHELLION: PARTNERIAID ALLWEDDOL

## DYLAI'R ADRAN ADDYSG A SGILIAU:

- Wneud addysg rhyw a chydberthynas LHDT-gynhwysol yn rhan orfodol o'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y cwricwlwm newydd. Dylai fod gofyn i bob ysgol ddysgu am faterion LHDT, mewn ffordd sy'n addas i oedran, a dylid ategu hynny gyda hyfforddiant ac adnoddau cynhwysol o ansawdd uchel i athrawon
  - Mewn ysgolion uwchradd, dylai hyn gynnwys trafod materion sy'n wynebu pobl ifanc LHDT mewn perthynas â phynciau fel perthnasoedd iach, rhyw diogel, cydsyniad, camdriniaeth a diogelwch ar-lein
  - Mewn ysgolion cynradd, dylai hyn gynnwys siarad am wahanol fathau o deuluoedd a mynd i'r afael ag ystrydebau rhywedd
- Datblygu canllawiau ymarferol ar gefnogi disgyblion traws mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
- Parhau i wneud taclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn flaenoriaeth ymhob ysgol gynradd ac uwchradd drwy:
  - Ddiweddaru canllawiau gwrth-fwlio 'Parchu Eraill', gan sicrhau bod canllawiau newydd yn cael eu cynhyrchu ar daclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd.
  - Ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon roi hyfforddiant ar ddysgu'n gadarnhaol am faterion LHDT, cefnogi disgyblion LHDT a thaclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd
  - Gweithio gyda'r darparwyr hyfforddiant athrawon i ddatblygu hyfforddiant a darpariaeth datblygu proffesiynol parhaus sy'n helpu athrawon i gefnogi disgyblion LHDT a thaclo bwlio
  - Gweithio drwy'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, cefnogi uwch arweinwyr ac arweinwyr y dyfodol i hyrwyddo cydraddoldeb LHDT drwy raglenni datblygu sydd wedi'u targedu, a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n gallu atal staff LHDT rhag mynd ymlaen i fod yn uwch arweinwyr

## DYLAI ESTYN:

- Ddarparu hyfforddiant cychwynnol a pharhaus i'r holl arolygwyr ynghylch sut i asesu ymdrechion ysgol i gefnogi disgyblion LHDT, a pha mor effeithiol maen nhw o ran mynd i'r afael â iaith a bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd
- Arolygu addysg rhyw a phertnasoedd pob ysgol fel rhan o'u hadolygiad ar gyfer alinio â'r cwricwlwm newydd
- Parhau i sicrhau bod effeithiolrwydd ysgol yn mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a chreu amgylchedd dysgu diogel ar gyfer yr holl bobl ifanc yn rhan o'r fframwaith arolygu a bod hyn yn cael ei gyfleu'n eglur i'r holl ysgolion
- Sicrhau bod darparu addysg rhyw a chydberthynas cynhwysol o ansawdd uchel yn rhan allweddol o'r gwaith o asesu agwedd datblygu personol y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Gwneud hyn yn eglur yn y canllawiau arolygu a thrwy hyfforddiant arolygwyr
- Bod yn fwy pendant wrth herio perfformiad gwael, yn ogystal â thynnu sylw at arferion da. Nodi beth yn union fyddai'n ddull annigonol o fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a chefnogi pobl ifanc LHDT.
- Wrth arolygu'r darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon, sicrhau bod yr hyfforddiant yn paratoi athrawon newydd i fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd ac i gefnogi disgyblion LHDT.

## DYLAI AWDURDODAU LLEOL A'R CONSORTIA ADDYSG RHANBARTHOL:

- Weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwella profiadau pobl ifanc LHDT yn elfen graidd o'r gwaith o wella ysgolion ledled Cymru, drwy:
  - Ddarparu hyfforddiant i'r holl athrawon, staff ysgol a llywodraethwyr ar daclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a chefnogi disgyblion LHDT
  - Hwyluso dysgu rhwng ysgolion ar faterion yn ymwneud â chynhwysiant LHDT, drwy rannu adnoddau o ansawdd uchel ac enghreifftiau o arfer gorau ac annog gweithio ar y cyd

## DYLAI AWDURDODAU LLEOL:

- Sicrhau bod eu hysgolion a'u lleoliadau addysg a ieuenctid yn hollol ymwybodol o bwysigrwydd taclo iaith a bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd, drwy:
  - Sicrhau eu bod yn gwneud ymrwymiad ysgrifenedig eglur i wneud hynny yn eu polisïau
  - Darparu canllawiau ar gofnodi a monitro pob achos o'r bwlio hwn er mwyn asesu hyd a lled y broblem a mesur cynnydd
- Darparu hyfforddiant ac adnoddau i holl staff yr awdurdod lleol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc ar gefnogi pobl ifanc LHDT a thaclo bwlio
- Nodi ysgolion sy'n cyflawni arfer da a hwyluso cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion, grwpiau ieuenctid LHDT, a sefydliadau'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar gefnogi pobl ifanc LHDT
- Cydnabod y ffaith fod cymorth iechyd meddwl, yn benodol i bobl ifanc LHDT, yn flaenoriaeth, a gwella mynediad at ddarpariaeth o ansawdd uchel. Annog gweithio ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, gwasanaethau gofal sylfaenol, grwpiau ieuenctid LHDT ac ysgolion

## DYLAI DARPARWYR HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON:

- Sicrhau bod yr holl athrawon wedi'u hyfforddi'n llawn ar ddysgu'n gadarnhaol am faterion LHDT, ar gefnogi disgyblion LHDT ac ar daclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd
- Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant athrawon eraill er mwyn rhannu arferion gorau a datblygu hyfforddiant a darpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus sy'n helpu athrawon i wella eu gwaith o daclo bwlio a chefnogi disgyblion LHDT.
- Gwella amrywiaeth yn y gweithlu dysgu ac arwain, drwy gymryd camau rhagweithiol i recriwtio ymgeiswyr LHDT, a thrwy weithio er mwyn dileu'r rhwystrau sy'n atal yr aelodau staff hynny rhag mynd ymlaen i swyddi arwain.



## DYLAI'R ADRAN IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL:

- Gydnabod y ffaith bod cymorth iechyd meddwl, yn benodol i bobl ifanc LHDT, yn flaenoriaeth, a gwella ansawdd a mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc LHDT Cymru.
- Hyfforddi ymarferwyr gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a nyrsys ysgolion ar anghenion lles penodol pobl ifanc LHDT
- Sicrhau bod GIG Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cofnodi ac yn monitro data ar iechyd a lles pobl ifanc LHDT, a defnyddio'r data hwn i nodi a hyrwyddo gwasanaethau wedi'u targedu
- Gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau, annog gwell cydweithio rhwng y sefydliadau addysgol a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, gan gynnwys drwy weithio gyda grwpiau ieuenctid LHDT

## I BOBL IFANC A RHIENI:


Adroddiad ar gyfer ysgolion, cynghorau lleol a llunwyr polisi fel Llywodraeth Cymru yw hwn. Fodd bynnag, os mai person ifanc neu riant ydych chi, gallwch ei ddefnyddio fel ffordd o helpu i greu ysgolion mwy cynhwysol. Defnyddiwch yr adroddiad er mwyn gofyn i'ch ysgol, neu ysgol eich plentyn, beth maen nhw'n ei wneud i sicrhau bod athrawon yn cael eu hyfforddi'n iawn ar faterion LHDT, a sut maen nhw'n cefnogi pobl ifanc LHDT.

# METHODOLEG

Rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Chwefror 2017, cwblhaodd 267 o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws rhwng 11 ac 19 oed o bob rhan o Gymru holiadur ar-lein oedd yn eu holi am eu profiadau yn yr ysgol, gartref ac ar-lein.


## Y SAMPL

### RHYWEDD




Roedd y gwahanol dermau a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr i ddisgrifio eu hunaniaeth rhywedd yn cynnwys 'anneuaidd' (non-binary), 'genderfluid' a 'genderqueer'. Mae disgyblion a ddefnyddiodd derm gwahanol i ddisgrifio eu hunaniaeth rhywedd yn cael eu disgrifio fel *disgyblion anneuaidd* yn yr adroddiad yma.

### CYFEIRIADEDD RHYWIOL




Roedd y gwahanol dermau a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr i ddisgrifio eu cyfeiriadedd rhywiol yn cynnwys 'panrywiol' a 'queer'.

Dywedodd pymtheg y cant o'r ymatebwyr (40 disgybl) eu bod yn draws, a dywedodd naw y cant pellach (24 disgybl) eu bod yn ansicr a ydyn nhw'n draws neu eu bod yn archwilio eu hunaniaeth rhywedd.

Mae'r holl wahaniaethau a nodwyd yn yr arolwg yn ystadegol arwyddocaol. Mae'r holl enwau gyda'r dyfyniadau wedi eu newid er mwyn cadw pawb yn ddienw.

# CYMORTH AC ADNODDAU

## RHAGLENNI STONEWALL CYMRU

Rhwydwaith o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y wlad yw **rhaglen Hyrwyddwyr Ysgolion Stonewall Cymru**, sy'n gweithio gyda'i gilydd a gyda Stonewall Cymru er mwyn taclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd. Gall ysgolion ymuno drwy fynd ar gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr Stonewall Cymru, sy'n rhoi'r wybodaeth, yr offer a'r hyder i staff ysgolion i hyfforddi eu cydweithwyr ar daclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a chreu amgylchedd dysgu cynhwysol i bob person ifanc. **I gael rhagor o wybodaeth**, ewch I **www.stonewallcymru.org.uk/cy/hyfforddiant-athrawon** neu anfonwch e-bost at **cymru@stonewall.cymru**

Mae rhaglen **Hyrwyddwyr Addysg Stonewall Cymru** yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i awdurdodau lleol yn eu gwaith o atal a thaclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn eu hysgolion a chreu amgylchedd dysgu cynhwysol i bob person ifanc. **I gael rhagor o wybodaeth,** ewch i **www.stonewallcymru.org.uk/cy/chwaraewch-ran/chwaraewch-ran-fel-addysgwr/awdurdodau-lleol** neu anfonwch e-bost at **cymru@stonewall.cymru**

Rhaglen pum mis yw rhaglen **Ymgyrchwyr Ifanc Stonewall**, sy'n rhad ac am ddim ac yn agored i bob person ifanc rhwng 16 a 21 oed sy'n byw yng ngwledydd Prydain. Cefnogir y rhaglen gan Grŵp Bancio Lloyds. Mae'r rhaglen yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i bobl ifanc ddechrau ymgyrchu mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a chymunedau er mwyn taclo gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDT. **I gael rhagor o wybodaeth** ewch i **www.youngstonewall.org.uk**

## ADNODDAU STONEWALL CYMRU

Mae gan Stonewall Cymru ystod eang o adnoddau i helpu ysgolion i fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd, i gefnogi pobl ifanc LHDT ac i ddathlu gwahaniaeth. Mae'r rhain ar gael ar-lein yn **http://www.stonewallcymru.org.uk/cy/ein-gwaith/cyhoeddiadau**

## CYSYLLTWCH Â STONEWALL CYMRU

**Stonewall Cymru**
**cymru@stonewall.cymru**
**029 2023 7744**
**www.stonewall.cymru**
**www.facebook.com/stonewallcymru**
**@StonewallCymru**

# ADRODDIAD YSGOL CYMRU

## Profiadau pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn ysgolion Cymru yn 2017

**Ges i fy mwlio yn y coleg am fod yn draws, a wnaethon nhw ddim byd. Ges i fy mwlio achos fy nillad, a wnaethon nhw chwerthin efo nhw.**
Morgan, 17, coleg addysg bellach

**Oherwydd na ches i erioed gyfle i drafod dim byd yn ymwneud â materion LHDT yn yr ysgol, fe wnes i fygu fy hunaniaeth am amser maith. O'n i'n meddwl ei fod yn beth annaturiol yr oedd pobl yn edrych i lawr arno.**
Grace, 19, yn y brifysgol erbyn hyn

**O'n i mewn gwers maths, ac roedd bachgen y tu ôl i fi yn taflu peniau a phapur at fy mhen i ac yn fy ngalw i'n lesbiad. Wnaeth yr athrawes ddim byd.**
Anna, 13, ysgol uwchradd ffydd


Stonewall Cymru
Cyfeiriad:
Transport House,
Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9SB

Gwefan: **www.stonewall.cymru**
Ffôn: **029 2023 7744**
E-bost: **cymru@stonewall.cymru**
**@StonewallCymru**



Elusen gofrestredig yw Stonewall Cymru, rhif cofrestru 1101255



Lluniau: disgyblion ac athrawon Ysgol Uwchradd Woodcote, un o Hyrwyddwyr Ysgolion Stonewall, a wirfoddolodd yn garedig.

Cyfieithiad: cwmni Nico
Dyluniad: www.createpod.com


Stonewall Cymru